

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb


The Welsh language belongs to all of us


DISGRIFIAD SWYDD RHEOLWR GWASANAETHAU PLANT

1. Noddir y swydd hon gan Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.
2. Lleolir y swydd hon ym Mhontypridd ond bydd teithio o glwb i glwb yn rhan annatod o'r swydd.
3. Bydd y sawl a benodir yn gweithio 37.5 awr yr wythnos. Oriau arferol y swydd yw 10:00yb y bore tan 6:00yh **OND** bydd angen bod yn hyblyg a gweithio yn ôl oriau agor a chau'r clybiau ac fe fydd hyn yn golygu gwaith gyda'r nos ac ar y penwythnos yn achlysurol.
4. Bydd y sawl a benodir yn gyfrifol am rediad llyfn a materion staffio a rheoleiddio saith Clwb Carco ar ôl ysgol, tri chynllun chwarae mynediad agored a bydd yn rheolwr llinell ar aelod arall o staff rhan amser y Fenter sydd yn cynorthwyo yn y maes hwn.
5. Bydd y sawl a benodir yn rhan o drafodaethau ar ddatblygiad model amgen o weithredu'r gwasanaethau plant (e.e. datblygu menter gymdeithasol newydd) sy'n cynnig cyfle cyffrous i ddatblygu'r rôl ymhellach yn y dyfodol.
6. Bydd y person a benodir yn gweithredu fel dolen gyswllt rhwng staff y Gwasanaethau Plant, y Fenter a'r rheoleiddwyr cenedlaethol.
7. Yn ogystal â'r gwyliau statudol, bydd hawl gan y person a benodir i 25 diwrnod o wyliau bob blwyddyn.
8. Ystod cyflog y swydd fydd £23,000 - £25,000 y flwyddyn ac fe adolygir hyn yn flynyddol.
9. Sefydliad bach yw Menter Iaith ac o angenrheidrwydd mae'r rheolau'n hyblyg.
10. Mae'r Cydlynnydd Gwasanaethau Plant yn atebol i Brif Weithredwr y Fenter.
11. Mae'r gwaith cydlynu gwasanaethau plant yn cynnwys hybu, cydlynu a threfnu gweithgareddau plant Cymraeg i ddisgyblion ysgolion Cynradd yn Rhondda Cynon Taf a'r cyffiniau.
12. Mae hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn ganolog i'r swydd

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

Amlinellir **sgiliau angenrheidiol** yr unigolyn isod:


- Cymhwysterau gwaith plant, profiad o waith gyda phlant, a pharodrwydd i ddilyn hyfforddiant priodol.
- Y gallu i arwain datblygiad y gwasanaethau plant yn strategol.
- Profiad o reoli staff a gwybodaeth drylwyr o'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant
- Y gallu i drefnu amser ac i weithio'n effeithiol a chywir o dan bwysau.
- Y gallu i ddelio'n ddiplomyddol â phroblemau ac unigolion.
- Profiad o ddefnyddio, neu barodrwydd i ddysgu defnyddio, rhaglenni cyfrifiadurol Microsoft Windows – Word, Excel, e-bost a meddalwedd perthnasol y Gwasanaeth.
- Profiad o weithio gyda phwyllgorau, gwirfoddolwyr a staff rhan amser
- Trwydded yrru lawn
- Y gallu i weithio yn annibynnol, o dan bwysau, a chyfathrebu'n dda gan gyfarwyddo gwaith eraill.
- Y gallu i drefnu gwaith yn effeithiol a'i gwblhau o fewn amser priodol.

13. Mae'r **dyletswyddau** yn amrywiol ond amlinellir y prif gyfrifoldebau isod:

- (i) Cydlynu, hyrwyddo a datblygu gwasanaethau plant gan gynnwys Clybiau Carco a Chynlluniau Chwarae a threfnu'r holl wasanaethau gan ddatblygu llyfnydd newydd yn ystod y flwyddyn
- (ii) Datblygu'r gwasanaeth yn strategol ac arwain ar ddablygiadau amgen (e.e. troi'r gwasanaeth yn fenter gymdeithasol)
- (iii) Darparu hyfforddiant priodol i staff y tim gwasanaethau plant.
- (iv) Llinell reoli'r Swyddog Cynlluniau Chwarae gan ofalu bod holl weithredfau a safonau'r Cynlluniau yn eu lle.
- (v) Sicrhau bod gwiriadau DBS holl staff y Fenter yn eu lle
- (vi) Diweddarau ac ysgrifennu pholisiau perthnasol Gofal Plant
- (vii) Sicrhau bod gweithredfau a pholisiau'r Fenter yn cael eu gweithredu o fewn y Gwasanaethau plant

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135


Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb


The Welsh language belongs to all of us

- (viii) Chwilio Grantiau adnoddau a hyfforddiant ar gyfer y Gwasanaeth Plant
- (ix) Chwilio staff a hysbysebu swyddi ar gyfer y Gwasaneth plant
- (x) Trefnu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer staff gofal plant a thyfu nifer y staff a chapasiti gwaith
- (xi) Delio gyda arolygwyr bwyd a hylendid, Clybiau Plant Cymru ac AGCCG
- (xii) Gweithredu yn unol a safonau'r cyrff arolygu cenedlaethol a lleol, mewn cydweithrediad ag ysgolion cynradd Rhondda Cynon Taf a'r cyffiniau, ac ar sail ymchwil cyfoes gan werthuso a chynorthwyo gydag arolygon blynyddol.
- (xiii) Rheoli staff achlysurol y Gwasanaeth Plant gan gynnwys arsylwi a gwerthuso.
- (xiv) Sicrhau systemau gwerthuso cyson gyda'r plant a'r rhieni
- (xv) Cynrychioli Gwasanaethau Plant y Fenter ar bwyllgorau priodol
- (xvi) Ysgrifennu adroddiadau cyson ar gyfer y Cyngor a'r Fenter
- (xvii) Codi arian, gosod cyllidebau a gweithio oddi fewn iddynt gan gadw cofnodion priodol a symud mwy o glybiau at fod yn hunan gynladwy yn ariannol.
- (xviii) Sicrhau bod systemau gweinyddol yn gywir a chyfoes.
- (xix) Sicrhau bod cylch lythyrau ac ymgyrchoedd marchnata yn cael eu paratoi, eu hargraffu a'u dosbarthu mewn da bryd.
- (xx) Delio gyda chwynion a phroblemau sy'n codi
- (xxi) Dosbarthu gwybodaeth i'r wasg a'r cyfryngau a delio ag ymholiadau ganddynt.
- (xxii) Cofrestru y Clybiau gyda Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCCG) a chofrestru fel Person Cofrestredig ar gyfer y Clybiau.
- (xxiii) Cydweithio â gweddill tîm y Fenter ar ddigwyddiad cydlynol blynyddol, Parti Ponty.
- (xxiv) Unrhyw ddyletswyddau rhesymol arall yn ôl y galw.

01443 40 75 70

www.menteriaith.cymru

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135